WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad Dilynol o Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd – **Cyngor Sir Fynwy**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1609A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Fynwy fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Fe allai oleuo gwaith archwilio dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ginette Beal a Lidia Vorontsova
o Grant Thornton LLP dan gyfarwyddyd Non Jenkins a Sara-Jane Byrne.

# Cynnwys

Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion a wnaed yn 2014. Ar hyn o bryd mae gan wasanaeth iechyd yr amgylchedd sefydlogrwydd ariannol a dylai ddefnyddio'r cyfnod hwn o sefydlogrwydd i feithrin cydnerthedd trwy daro'r cydbwysedd cywir rhwng gwasanaethau statudol, gwasanaethau dewisol a gwasanaethau sy'n creu incwm.

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl 10

Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion a wnaed yn 2014. Ar hyn o bryd mae gan wasanaeth iechyd yr amgylchedd sefydlogrwydd ariannol a dylai ddefnyddio'r cyfnod hwn o sefydlogrwydd i feithrin cydnerthedd trwy daro'r cydbwysedd cywir rhwng gwasanaethau statudol, gwasanaethau dewisol a gwasanaethau sy'n creu incwm. 10

Mae aelodau o bwyllgorau craffu'n cael adroddiadau manwl a hyfforddiant craffu generig sy'n eu galluogi i ddeall y gwasanaethau a ddarperir a'r cyfle i herio gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a chraffu arnynt mewn modd effeithiol. 10

Mae newidiadau i gyllideb iechyd yr amgylchedd wedi cael effaith finimol ar ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gyfyngu ar yr angen i ymgynghori. 11

Mae'r Cyngor wedi pennu blaenoriaethau ar gyfer iechyd yr amgylchedd yn ei gynlluniau busnes. Mae'r Cyngor yn cydnabod gwerth buddsoddi mewn gwasanaethau statudol ac anstatudol a byddai o fudd iddo gynnal adolygiad o'r newydd o wasanaethau statudol ac anstatudol i ategu unrhyw benderfyniadau cyllido yn y dyfodol. 11

Mae'r Cyngor yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid, ond ystod gyfyngedig o bartneriaethau ffurfiol sydd ganddo. Lle y bo'n bosibl, mae'r Cyngor yn cael incwm grant ac yn codi costau llawn am wasanaethau. 12

Ar lefel gwasanaethau, mae trefniadau cynllunio strategol da ar waith. Cyfyngedig fu'r newidiadau i'r gwasanaeth, felly nid yw'r Cyngor wedi cwblhau dadansoddiad manwl o gostau, manteision ac effaith. Mae'r Cyngor yn archwilio'r defnydd o dechnoleg. 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fel rhan o'i gyfres o Astudiaethau Gwella Awdurdodau Lleol, 'Cyflawni â Llai', cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad, Cyflawni â Llai – yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion, ym mis Hydref 2014.

2 Yn yr adroddiad hwn, tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at ddeddfwriaeth ddiweddar a deddfwriaeth a oedd ar ddod, a phryderon Cynghorau na fyddent yn gallu cyflawni'r ymrwymiadau ynddi. Mae llawer o'r cynigion deddfwriaethol y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad a gyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol yn 2014 wedi cael eu rhoi ar waith ers hynny, gan gynnwys Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Pasiwyd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn 2017 hefyd.

3 Fe gyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiadau lleol ar gyfer pob Cyngor hefyd fel ran o astudiaeth 2014.

4 Mewn llythyr at Brif Weithredwyr awdurdodau lleol ar 11 Ionawr 2018, nododd yr Archwilydd Cyffredinol ei fwriad i wneud peth gwaith thematig sy'n fwy cyson â'i raglen o Astudiaethau Llywodraeth Leol. Diben cysoni gwaith thematig yn fwy â'r rhaglen Astudiaethau Llywodraeth Leol yw gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau archwilio wrth gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol gan sicrhau ar yr un pryd bod materion, themâu a gwersi a nodir mewn adroddiadau ar Astudiaethau Llywodraeth Leol yn 'cael sylw dilynol' ac yn cael eu harchwilio gyda chynghorau'n lleol mewn blynyddoedd dilynol.

5 Roedd yr adolygiad hwn yn asesu a fu unrhyw newidiadau o ran cyllidebau a staff yng ngwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2014. At ddiben yr adolygiad hwn, fe ganolbwyntiom ni ar gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael ag argymhellion 2, 3, 4 a 5 yn yr adroddiad cenedlaethol.

6 Roedd yr adroddiad yn cynnwys chwe argymhelliad a nodir yn Arddangosyn 1 isod:

Arddangosyn 1: argymhellion a wnaed yn adroddiad cenedlaethol 2014, Cyflawni â Llai - yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion

| Argymhelliad | | Partneriaid Posibl |
|---|---|---|
| A1 | Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. | Cynghorau, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru |
| A2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A4 | Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau;<br>• cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain; | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru |

| Argymhelliad | Partneriaid Posibl |
| --- | --- |
| • pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion;<br>• gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. | |
| A5 Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn y dyfodol; a | Cynghorau |

| Argymhelliad | | Partneriaid Posibl |
|---|---|---|
| | • chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. | |
| A6 | Nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau o dan ddeddfwriaeth tai ac iechyd newydd a chytuno sut y caiff y dyletswyddau newydd hyn eu cyflawni. | Llywodraeth Cymru,<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

7 Fe gynhaliom ni'r adolygiad hwn yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi a mis Hydref 2019.

## Yr hyn a ganfuom

8 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: **A yw'r Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Iechyd yr Amgylchedd – Cyflawni â Llai a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014?**

9 Ar y cyfan canfuom fel a ganlyn: **Mae'r Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion a wnaed yn 2014. Ar hyn o bryd mae gan wasanaeth iechyd yr amgylchedd sefydlogrwydd ariannol a dylai ddefnyddio'r cyfnod hwn o sefydlogrwydd i feithrin cydnerthedd trwy daro'r cydbwysedd cywir rhwng gwasanaethau statudol, gwasanaethau dewisol a gwasanaethau sy'n creu incwm.**


10 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae aelodau o bwyllgorau craffu'n cael adroddiadau manwl a hyfforddiant craffu generig sy'n eu galluogi i ddeall y gwasanaethau a ddarperir a'r cyfle i herio gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a chraffu arnynt mewn modd effeithiol.
- Mae newidiadau i gyllideb iechyd yr amgylchedd wedi cael effaith finimol ar ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gyfyngu ar yr angen i ymgynghori.
- Mae'r Cyngor wedi pennu blaenoriaethau ar gyfer iechyd yr amgylchedd yn ei gynlluniau busnes. Mae'r Cyngor yn cydnabod gwerth buddsoddi mewn gwasanaethau statudol ac anstatudol a byddai o fudd iddo gynnal adolygiad o'r newydd o wasanaethau statudol ac anstatudol i ategu unrhyw benderfyniadau cyllido yn y dyfodol.
- Mae'r Cyngor yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid, ond ystod gyfyngedig o bartneriaethau ffurfiol sydd ganddo. Lle y bo'n bosibl, mae'r Cyngor yn cael incwm grant ac yn codi costau llawn am wasanaethau.
- Ar lefel gwasanaethau, mae trefniadau cynllunio strategol da ar waith. Cyfyngedig fu'r newidiadau i'r gwasanaeth, felly nid yw'r Cyngor wedi

cwblhau dadansoddiad manwl o gostau, manteision ac effaith. Mae'r Cyngor yn archwilio'r defnydd o dechnoleg.


- Mae cyllidebau refeniw ar gyfer iechyd yr amgylchedd wedi cynyddu o £0.94m yn 2017-18 i £0.98m yn 2019-20 (cyfeirier at Arddangosyn 2), sy'n gynnydd o 5% yn y gyllideb, o ganlyniad i gostau staffio cynyddol a chyflwyno strwythur staffio newydd.
- Mae niferoedd y staff wedi gostwng o 21.2 Cyfwerth ag Amser Llawn yn 2014 i 18.2 Cyfwerth ag Amser Llawn yn 2019 (cyfeirier at Arddangosyn 3), sy'n ostyngiad o 3.0 Cyfwerth ag Amser Llawn ar y cyfan. Roedd swyddi y cafwyd gwared arnynt yn cynnwys technegwyr a rheolwr gwasanaeth. Caiff dyletswyddau rheoli eu cyflawni bellach gan ddau uwch swyddog iechyd yr amgylchedd sydd â dyletswyddau gweithredol hefyd.
- Ni ragwelir unrhyw ostyngiadau mewn adnoddau yn y tymor byr a chanolig, gan bod swyddogion o'r farn bod y gwasanaeth yn gweithredu ar lefel leiafsymiol. Hoffai'r Prif Swyddog archwilio sut y gall y gwasanaeth newid o fod yn 'wasanaeth sy'n goroesi i fod yn wasanaeth sy'n ffynnu'.

Arddangosyn 2: cost net gwasanaethau iechyd yr amgylchedd: y gyllideb refeniw o'i gymharu â'r alldro rhwng 2017-18 a 2019-20



Nid oedd y Cyngor yn gallu cadarnhau a darparu gwybodaeth ariannol y gellir ei chymharu â 2014-15 pan gynhaliwyd yr adolygiad gwreiddiol.

Arddangosyn 3: niferoedd staff (cyfwerth ag amser llawn) yn 2014 o'i gymharu â 2019




# Cynigion ar gyfer gwella

Arddangosyn 4: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor gynnal adolygiad o'r newydd o rwymedigaethau gwasanaeth statudol ac anstatudol i ategu unrhyw benderfyniadau cyllido yn y dyfodol. |
| C2 | Er mwyn datblygu gwasanaeth iechyd yr amgylchedd sy'n ffyniannus ac wedi'i ddiogelu at y dyfodol dylai'r Cyngor ystyried y canlynol:<br>• Taro cydbwysedd rhwng dyletswyddau statudol a gwasanaethau anstatudol a gwasanaethau dewisol sy'n creu incwm.<br>• Cysoni ei weithgareddau creu incwm â Strategaeth Fasnachol y Cyngor ar y cyfan ac ystyried sut y gallai'r gwasanaeth gael budd.<br>• Gweithio mewn partneriaethau mwy ffurfiol gydag awdurdodau eraill i ddarparu gwasanaethau.<br>• Archwilio sut y gallai trawsnewid a thechnoleg wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. |

# Adroddiad manwl

## Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion a wnaed yn 2014. Ar hyn o bryd mae gan wasanaeth iechyd yr amgylchedd sefydlogrwydd ariannol a dylai ddefnyddio'r cyfnod hwn o sefydlogrwydd i feithrin cydnerthedd trwy daro'r cydbwysedd cywir rhwng gwasanaethau statudol, gwasanaethau dewisol a gwasanaethau sy'n creu incwm.

### Mae aelodau o bwyllgorau craffu'n cael adroddiadau manwl a hyfforddiant craffu generig sy'n eu galluogi i ddeall y gwasanaethau a ddarperir a'r cyfle i herio gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a chraffu arnynt mewn modd effeithiol

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom y canlynol:

- Caiff materion iechyd yr amgylchedd eu hystyried yn rheolaidd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau Cryf. Mae'r pwyllgor hwn yn cael adroddiad manwl ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd bob chwe mis. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys data ariannol a data ar berfformiad. Mae'r swyddogion sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn amrywio gan ddibynnu ar y pynciau dan sylw.
- Fe wnaeth y Pwyllgor Craffu Cymunedau Cryf ystyried y strategaeth toiledau lleol hefyd.
- Fe gwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau craffu yn 2017. O ganlyniad mae'r canlynol wedi cael eu cyflwyno:
  - Rhaglen datblygu aelodau.
  - Cynllun gweithredu hunanwerthuso a gwblhawyd yn 2017 ac a fireiniwyd ymhellach yn 2018. Mae'r cynllun hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Grŵp Cadeiryddion Craffu.
- Yn 2017 darparwyd hyfforddiant ar Gyflwyniad i Graffu a Rôl ac Ymddygiad Cynghorwyr.
- Yn 2018 darparwyd hyfforddiant i'r holl aelodau ar asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau.
- Nid oes gan y Cyngor raglen strwythuredig i roi hyfforddiant i aelodau ar faterion iechyd yr amgylchedd.

## Mae newidiadau i gyllideb iechyd yr amgylchedd wedi cael effaith finimol ar ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gyfyngu ar yr angen i ymgynghori

12 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom y canlynol:

- Mae newidiadau i wasanaethau iechyd yr amgylchedd hyd yma wedi bod yn gyfyngedig i'r isod:
  - Rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaeth rheoli plâu domestig yn 2014-15.
  - Gostyngiad yn niferoedd y staff yng ngwasanaeth diogelu'r cyhoedd i arbed £141,000 yn 2014-15. (Mae hyn yn cynnwys gwasanaeth diogelu'r cyhoedd yn ei gyfanrwydd ac nid dim ond iechyd yr amgylchedd.)
  - Cynnydd yn ffioedd a thaliadau cyflenwadau dŵr preifat yn 2018-19.
- Ni ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar gyfer unrhyw un o'r newidiadau uchod, er yr ymgynghorwyr â staff a'r undebau llafur ynghylch y gostyngiad yn niferoedd y staff yn 2014-15.
- Fe ymgynghorodd y Cyngor â'r cyhoedd i oleuo'i strategaeth toiledau lleol.

## Mae'r Cyngor wedi pennu blaenoriaethau ar gyfer iechyd yr amgylchedd yn ei gynlluniau busnes. Mae'r Cyngor yn cydnabod gwerth buddsoddi mewn gwasanaethau statudol ac anstatudol a byddai o fudd iddo gynnal adolygiad o'r newydd o wasanaethau statudol ac anstatudol i ategu unrhyw benderfyniadau cyllido yn y dyfodol

13 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom y canlynol:

- Roedd y cynnig i ostwng niferoedd staff yng ngwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd ym mis Mawrth 2014 yn cynnwys asesiad o'r effaith ar ddyletswyddau statudol ac anstatudol. Dylai'r Cyngor ystyried diweddaru'r dadansoddiad hwn i ategu prosesau penderfynu yn y dyfodol.
- Mae gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn cydnabod gwerth gwneud gwaith anstatudol rhagweithiol megis darparu hyfforddiant ar safonau hylendid bwyd a thargedu arolygiadau o lety preswyl uwchlaw sefydliadau risg uchel megis siopau cludfwyd.
- Mae gan wasanaeth iechyd yr amgylchedd ddau gynllun busnes: Masnachol ac Iechyd y Cyhoedd. Mae'r cynlluniau busnes hyn yn gynhwysfawr ac yn nodi blaenoriaethau ac amcanion ar lefel gwasanaethau, deilliannau cysylltiedig a sut y mae'r rhain yn cyd-fynd â'r amcanion llesiant corfforaethol. Cytunwyd ar safonau perfformiad derbyniol yn fewnol ac maent wedi'u dogfennu yn y cynlluniau busnes hyn.

- Mae swyddogion yn mynd ati o bryd i'w gilydd i adolygu eu perfformiad yn erbyn y Safonau Ymarfer, ond nid ydynt wedi hunan-asesu'n flynyddol dros y blynyddoedd diwethaf tra'r oedd y Safonau Ymarfer yn cael eu hadolygu.

## Mae'r Cyngor yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid, ond ystod gyfyngedig o bartneriaethau ffurfiol sydd ganddo. Lle y bo'n bosibl, mae'r Cyngor yn cael incwm grant ac yn codi costau llawn am wasanaethau

14 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom y canlynol:

- Mae gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn cynnal ei berfformiad yn y mwyafrif o feysydd, ond nid yw'n cyrraedd ei darged arfaethedig i brofi cyflenwadau dŵr preifat ledled y Sir.
- Mae'r Cyngor yn cydweithio gydag ystod o bartneriaid yn anffurfiol, megis yr Asiantaeth Safonau Bwyd, paneli arbenigol Cymru gyfan ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae cydweithio'n gyfle i ddatblygu gwasanaeth iechyd yr amgylchedd mwy llewyrchus a ffyniannus.
- Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith i awdurdod cyfagos i ymateb i geisiadau cynllunio sy'n gysylltiedig ag iechyd yr amgylchedd, ond nid yw'r Cyngor yn rhannu unrhyw wasanaethau iechyd yr amgylchedd gydag Awdurdodau Lleol nac yn trefnu gwasanaethau trwy gontract allanol gyda darparwyr eraill ar hyn o bryd.
- Defnyddiwyd contractwyr allanol i gwblhau arolygiadau o sefydliadau bwyd risg isel, fel bod staff profiadol yn gallu canolbwyntio ar safleoedd risg uchel.
- Mae'r Cyngor yn codi am yr holl wasanaethau iechyd yr amgylchedd y caniateir iddo godi ac mae wedi adolygu ei daliadau i sicrhau ei fod yn adennill costau'n llawn. Mae'r Cyngor yn cael incwm trwy weithredu fel Prif Awdurdod ar gyfer amryw sefydliadau yn y sector preifat.
- Mae'r Cyngor yn ystyried sut y dylai daro cydbwysedd rhwng cyflawni dyletswyddau statudol ar y naill law a chreu incwm o weithgareddau dewisol ar y llaw arall, gyda golwg ar ddatblygu ei wasanaethau fel eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r Cyngor wedi cael cyllid grant lle bynnag y bo'n bosibl ac mae'n cael cyllid gan yr ASB ar hyn o bryd.

## Ar lefel gwasanaethau, mae trefniadau cynllunio strategol da ar waith. Cyfyngedig fu'r newidiadau i'r gwasanaeth, felly nid yw'r Cyngor wedi cwblhau dadansoddiad manwl o gostau, manteision ac effaith. Mae'r Cyngor yn archwilio'r defnydd o dechnoleg

15 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom y canlynol:

- Mae fframwaith rheoli perfformiad cynhwysfawr yn ei le i sicrhau bod rheolwyr gweithredol yn cael eu herio a'u dwyn i gyfrif am berfformiad a chyflawni amcanion.
- Mae'r Cyngor wedi defnyddio data ar weithgarwch a'r galw i gynllunio gwasanaethau ac i wella'r modd y mae'n cyflwyno adroddiadau i bwyllgorau craffu.
- Mae'r Cyngor wedi dechrau trefnu bod technoleg newydd ar gael ac wedi dechrau treialu Ap Sŵn i hysbysu ynghylch niwsans sŵn. Mae'r Cyngor wrthi hefyd yn archwilio datrysiadau digidol ar gyfer casglu tystiolaeth ar safleoedd.
- Mae papurau pwyllgorau a ddarparwyd i ategu penderfyniadau aelodau'n dynodi y rhoddir ystyriaeth i gost, mantais ac effaith y penderfyniad.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru